Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Options Kinsale

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Options Kinsale

Agorwyd Ysgol Options Kinsale yn 2007. Mae'r ysgol yn rhan o grŵp Outcomes First sy'n ceisio darparu gwasanaethau addysg a phreswyl integredig ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA), anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol, ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae Ysgol Options Kinsale yn cynnig addysg a gofal preswyl ar gyfer hyd at 25 o ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd ag anghenion cymhleth ac wedi cael diagnosis o ASA. Mae gan yr ysgol 24 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r mwyafrif ohonynt wedi eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal (PDG) ac mae llawer ohonynt yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndiroedd Saesneg.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Tachwedd 2016. Cefnogir y pennaeth gan dîm addysg sy'n cynnwys dirprwy bennaeth, chwech o athrawon dosbarth, dau diwtor rhan-amser ac wyth cynorthwyydd cymorth dysgu. Cefnogir y tîm addysg gan dîm clinigol sy'n cynnwys therapydd galwedigaethol, therapydd lleferydd ac iaith, seicolegydd a therapydd celf.

Cynhaliwyd arolygiad llawn diwethaf yr ysgol yn 2012.

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd meithringar a gofalgar sy'n cefnogi anghenion cymhleth ei disgyblion yn dda. Mae staff o'r timau addysg, preswyl a chlinigol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod dulliau cyson o gynorthwyo disgyblion yn yr ysgol ac yn eu bywyd bob dydd. O ganlyniad i'r cymorth cydlynus hwn, mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu lles ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion a galluoedd amrywiol ei disgyblion yn llwyddiannus ar y cyfan. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o gyfleoedd i ddisgyblion elwa ar ddysgu awyr agored yn y gymuned, sy'n helpu disgyblion i fagu hyder a gwella eu hiechyd corfforol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol ymagwedd strategol at addysg bersonol a chymdeithasol, ac nid yw systemau i olrhain cynnydd disgyblion yn eu medrau ehangach wedi eu datblygu'n ddigonol.

Ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol, mae gan yr ysgol dîm arweinyddiaeth sefydlog. Mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent wedi gwneud newidiadau buddiol i gryfhau darpariaeth yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r camau gweithredu hyn ac mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith.

Nid yw'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Cydymffurfio â’r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae’r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003, dylai’r ysgol:

- Sicrhau bod y polisi ar y cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan gynlluniau gwaith effeithiol, a’u rhoi ar waith yn effeithiol 1(2)
- Sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd sy’n adlewyrchu ei nodau a’i hethos 1(2)(f)

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i’r afael â chwynion

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu ar draws ystod ehangach o fedrau

A3 Gwella ansawdd cynllunio tymor hir athrawon ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod staff cymorth dysgu yn cael yr hyfforddiant ac yn dysgu’r medrau sydd eu hangen i gyflawni eu rolau yn effeithiol

A5 Cryfhau prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Gan nad yw’r ysgol yn bodloni’r safonau sy’n ofynnol ar gyfer cofrestru, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn i’r perchennog gyflwyno cynllun gweithredu o fewn cyfnod penodol.  Bydd y cynllun hwn yn amlinellu’r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni’r safonau, a’r raddfa amser y bydd yn cwblhau pob cam ynddi.

Mae Estyn yn cynghori’r perchennog i ddiwygio ei chynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae’r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i’r argymhellion. Dylai ddosbarthu’r cynllun hwn hefyd, neu grynodeb ohono, i’r holl rieni/gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae gan bob disgybl sy'n mynychu Ysgol Options Kinsale ystod o anghenion cymhleth, graddau amrywiol o ymddygiad heriol, ac mae llawer ohonynt ar y sbectrwm awtistig. O ganlyniad i gymhlethdod eu hanghenion, bernir cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion ar sail disgybl unigol. Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol gyda chyfartaleddau cenedlaethol na chymharu perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol o ran eu mannau cychwyn unigol mewn ystod addas o fedrau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion heb eiriau yn gwneud cynnydd cryf wrth ymestyn y cyfnod y maent yn ei dreulio mewn cyfnod rhannu sylw gyda staff. Maent yn gwella eu medrau gwrando yn sylweddol, ac yn dysgu ymateb yn dda i ddefnydd athrawon o giwiau geiriol ac ystumiol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio symbolau yn briodol i gyfleu eu hanghenion sylfaenol, er enghraifft i ddangos eu dewis o fwyd amser egwyl. Mae ychydig o ddisgyblion yn dysgu defnyddio cymwysiadau ar eu llechi personol i gyfleu eu hanghenion gofal personol yn effeithiol.

Mae disgyblion sy'n cyfathrebu gan ddefnyddio lleferydd yn datblygu eu dealltwriaeth o gonfensiynau cymdeithasol ynghylch cyfathrebu yn dda. Er enghraifft, maent yn dysgu cymryd eu tro i ryngweithio â phobl eraill ac yn trafod eu syniadau yn amyneddgar ac yn fanylach. Mae hyn yn eu helpu i fod yn fwy hyderus yn y modd y maent yn ymgysylltu â phobl eraill. Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau staff yn dda. Mewn sefyllfaoedd dysgu strwythuredig, maent yn dangos medrau dysgu priodol ac yn ymateb yn gywir i gwestiynau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu ar lefelau sy'n briodol i'w gallu. Mae disgyblion sy'n dilyn y cwricwlwm synhwyraidd yn dysgu creu marciau a ffurfio siapiau llythrennau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu atebion byr i dasgau darllen a deall yn annibynnol neu gan ddefnyddio fframiau ysgrifennu. Mae tua hanner y disgyblion hyn yn darllen testunau syml yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn dilyn gwybodaeth ysgrifenedig i gwblhau proses gymhleth fel dilyn rysáit i bobi cacen.

Mae pob un o'r disgyblion yn ymarfer a datblygu medrau rhifedd ar lefelau sy'n briodol i'w gallu. Er enghraifft, maent yn cyfrif yn y drefn gywir ac yn adio a thynnu i fyny i 1000. Pan gânt y cyfle, maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda mewn cyd-destunau ymarferol, er enghraifft wrth bwyso cynhwysion mewn sesiynau technoleg bwyd neu wrth blannu basgedi crog mewn sesiynau garddwriaeth. Mae disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn atgyfnerthu eu medrau rhifedd cynnar yn llwyddiannus, fel adnabod digidau, cyfrif a pharu siapiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llechi a chyfrifiaduron bwrdd gwaith yn effeithiol i ddefnyddio cymwysiadau i gynorthwyo eu dysgu, er enghraifft i ymarfer eu medrau rhifedd. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r rhaglenni hyn yn hyderus i ddewis gwybodaeth neu ddewis caneuon a fideos.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau symud yn dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion corfforol a synhwyraidd yn gwella eu cydsymud a'u symudedd trwy raglenni a gweithgareddau therapiwtig cynlluniedig, ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn briodol mewn sesiynau garddio a choginio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda trwy weithgareddau amserlenedig rheolaidd sy'n adlewyrchu diddordebau a galluoedd disgyblion, fel teithiau cerdded cymunedol, canŵio, pêl-droed a dringo.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr sy'n eu helpu i fod yn fwy annibynnol mewn meysydd fel paratoi bwyd, elwa ar y gymuned a gofal personol. Er enghraifft, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddiogelwch personol trwy ddefnyddio teclynnau cegin ac offer garddio yn ddiogel. Gydag anogaeth gan staff, maent yn dysgu dilyn sbardunau a dilyniannau gweledol sy'n eu cynorthwyo i ddilyn gweithgareddau a'u cwblhau yn fwy annibynnol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi cyflawni unedau achredu mewn meysydd fel technoleg bwyd, medrau bywyd a gofal anifeiliaid.

Mae cymhlethdod anghenion disgyblion yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn mynd ymlaen i fyw mewn darpariaeth â chymorth neu ddarpariaeth breswyl pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion yn symud gartref i fyw gyda'u rhieni. Mae'r medrau y mae disgyblion yn eu dysgu yn yr ysgol yn eu cynorthwyo'n dda i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r cam nesaf yn eu bywydau.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae llawer o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Options Kinsale wedi cael cyfnodau o aflonyddwch sylweddol i'w haddysg ffurfiol ac wedi bod mewn sawl ysgol cyn dechrau yn yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol ag amrywiad sylweddol yn eu mannau cychwyn, ychydig iawn o hyder fel dysgwyr ac anawsterau cynyddol o ran rheoli eu hymddygiad. Dros gyfnod, maent yn meithrin perthnasoedd cadarn gyda staff ac yn dysgu teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at safonau lles disgyblion a'r cynnydd a wnânt yn yr ysgol.

O ganlyniad i'r cymorth buddiol a gânt, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu gwydnwch a'u hymgysylltiad â dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r amrywiaeth eang o weithgareddau a gynigir ac yn dangos parodrwydd cynyddol i gymryd rhan ac ymgymryd â phrofiadau newydd wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion sy'n dilyn y cwricwlwm synhwyraidd yn datblygu'r gallu i gynnal eu sylw dros gyfnodau mwy cynaledig a rheoli trosglwyddiadau pwysig yn ystod eu diwrnod yn fwy priodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn mwynhau eu gwersi ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â staff addysgu a gweithgareddau dysgu. Mae disgyblion yn cydweithredu'n dda â'i gilydd, a phan gânt gyfle, maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau, grwpiau bach neu fel dosbarth cyfan.

Gyda chymorth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad yn fwy effeithiol dros gyfnod. Maent yn ymddwyn yn briodol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac yn ymateb yn gwrtais ac yn gadarnhaol i bobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion sy'n cyfathrebu â lleferydd yn rhannu eu profiadau o'r ysgol yn hyderus ac yn frwdfrydig.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd a diet iach. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol i'w helpu i gadw'n iach a heini. Mae'r rhain yn cynnwys nofio, marchogaeth a cherdded. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i staff yn eu hannog i wneud dewisiadau iach amser cinio a thrwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu'n briodol eu dealltwriaeth o bwysigrwydd helpu pobl eraill trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau codi arian. Er enghraifft, maent yn codi arian trwy werthu cacennau i godi arian ar gyfer elusennau, yn cymryd rhan mewn diwrnodau siwmper Nadolig ac yn helpu paratoi ar gyfer y Ffair Nadolig.

Ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain neu gyfrannu'n llawn at waith yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu gwneud dewisiadau effeithiol yn yr ysgol ynghylch dilyniant gweithgareddau mewn gwersi a'u dewis o wobrau. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau am y cwricwlwm. Er enghraifft, maent wedi dylanwadu ar y testunau yr hoffent ddysgu amdanynt yn ystod prosiect ar yr Ail Ryfel Byd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r ysgol yn trefnu ei chwricwlwm yn dda i fynd i'r afael ag ystod eang o anghenion a galluoedd ei disgyblion. I ddisgyblion sy'n dilyn y cwricwlwm synhwyraidd, rhoddir pwyslais addas ar ddatblygu cyfathrebu, a datblygiad personol a chymdeithasol. I ddisgyblion mwy abl, mae ffocws priodol ar gymhwyso medrau annibyniaeth mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau i baratoi ar gyfer eu lleoliadau ar ôl yr ysgol. Mae'r model hwn yn galluogi mwy o ymatebolrwydd i anghenion disgyblion unigol a'u parodrwydd i ymgymryd ag ystod ehangach o weithgareddau wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae hon yn nodwedd gref yng ngwaith yr ysgol.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth ddifyr o brofiadau dysgu sy'n gweddu'n dda i anghenion a galluoedd disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd addas ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â chyfle i gymryd rhan mewn ystod fuddiol o weithgareddau yn y gymuned leol, fel therapi ceffylau, nofio a siopa. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu atgyfnerthu datblygiad rhyngweithio a lles cymdeithasol disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi. Mae athrawon yn cofnodi ac yn olrhain camau bach o gynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu magu hyder disgyblion yn y meysydd hyn yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon gofalus i ddatblygu gallu disgyblion i gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau ymarferol, er enghraifft wrth siopa neu ddefnyddio arian yn y gymuned. Mae hyn yn golygu bod athrawon yn colli cyfleoedd i gryfhau ac ymestyn y medrau hyn mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i'r disgyblion.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion cymhleth eu disgyblion. Mae athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth o'r lleoliadau preswyl yn gweithio'n dda fel tîm i hyrwyddo amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol yn yr ysgol. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithio

gofalgar gyda disgyblion ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Dros gyfnod, mae disgyblion yn dysgu ymddiried yn y staff, maent yn magu hunanhyder ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid oes gan staff cymorth yr arbenigedd neu nid ydynt yn derbyn arweiniad digonol i hyrwyddo'r amcanion dysgu yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ansawdd y cymorth dysgu ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion disgyblion i gynllunio gweithgareddau a thasgau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithio gyda'i gilydd a datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn gosod amcanion dysgu clir sy'n herio disgyblion yn ddigonol ac mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf. At ei gilydd, cyfyngedig yw'r arfarniad o gynnydd disgyblion wrth ddatblygu eu medrau dros gyfnod ac nid yw ansawdd y cynllunio tymor hir i fodloni targedau disgyblion wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn darparu cyfarwyddiadau clir, a defnyddiant amrywiaeth addas o gymhorthion gweledol a rhyngweithiadau i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae pob un o'r disgyblion yn rhoi adborth llafar cyson a chalonogol sy'n helpu disgyblion i gynnal eu ffocws a chyflawni. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r defnydd o arwyddo ar draws yr ysgol i gryfhau'r arfer gadarnhaol hon.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd meithringar a chefnogol sy'n helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel ac yn eu galluogi i feithrin perthnasoedd ymddiriedus a chynhyrchiol gyda staff. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn cymryd amser i ddeall eu hanghenion yn drylwyr. Caiff yr ymagwedd ofalgar a sensitif hon effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac mae'n gryfder pwysig yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn elwa'n sylweddol ar fewnbwn ystod o wasanaethau arbenigol buddiol, gan gynnwys therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith, seicoleg a therapi celf. Mae gwaith y tîm hwn yn cynorthwyo staff yn llwyddiannus i fodloni anghenion disgyblion, sy'n aml yn rhai cymhleth. Mae cynrychiolwyr o'r timau clinigol, addysg a phreswyl yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd a lles pob disgybl, a sicrhau bod strategaethau i gynorthwyo disgyblion yn gyfoes ac effeithiol.

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth addas o asesiadau i sefydlu dealltwriaeth gadarn o anghenion therapiwtig a synhwyraidd disgyblion pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Mae'r asesiadau hyn yn galluogi staff i gynllunio'n effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion yn y meysydd pwysig hyn. Fodd bynnag, nid yw systemau i olrhain a monitro cynnydd disgyblion mewn dysgu wedi eu datblygu'n ddigonol ac nid ydynt yn cofnodi'r cynnydd a wna disgyblion yn yr ysgol yn ddigon da. Maent yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau cynnydd bach iawn mewn llythrennedd a rhifedd ac nid ydynt yn cofnodi cynnydd disgyblion ar draws medrau ehangach neu mewn meysydd sy'n bwysig i fywydau disgyblion yn y dyfodol yn ddigon da.

Mae'r tîm clinigol yn cynorthwyo staff addysg i osod targedau mewn cynlluniau addysg unigol ar faterion sy'n cysylltu'n dda â lles personol disgyblion, er enghraifft yn ymwneud â'u diet neu eu gofal personol. Mae'r dull hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth briodol o faterion sy'n ymwneud â'u diogelwch personol yn yr ysgol ac yn y gymuned. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon strategol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion yn gyffredinol. O ganlyniad, collir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rôl lawn ym mywyd eu cymuned a datblygu dealltwriaeth briodol o'u lle yn y byd.

Mae trefniadau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn glir ac yn cael eu deall yn dda. Mae staff yn rhoi polisi ymddygiad yr ysgol ar waith yn effeithiol ac mae'r ysgol yn olrhain ac yn arfarnu achosion yn ymwneud ag ymddygiad heriol yn drylwyr. Mae hyn yn galluogi staff i nodi patrymau a chynllunio strategaethau i helpu disgyblion i ddysgu rheoli eu hymddygiadau yn fwy llwyddiannus. Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau cymdeithasol. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn mynychu cyrsiau mewn colegau addysg bellach lleol. Mae hyn yn helpu meithrin eu hunan-barch ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ffyrdd iach o fyw. Mae disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd bwyta'n iach a lle bo'n berthnasol, mae ganddynt dargedau personol i ymestyn eu dealltwriaeth o hyn. Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymarfer corff, trwy weithgareddau fel canŵio, cerdded ceunentydd a beicio. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnwys cyfleoedd amserlenedig rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol trwy wersi garddwriaeth a theithiau cerdded antur.

Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn trwy adroddiadau diwedd blwyddyn, cymhwysiad cyfryngau cymdeithasol, galwadau ffôn a'r llyfrau cyswllt cartref-ysgol. Mae'r cyfathrebu hwn yn helpu'r ysgol, rhieni a gofalwyr i ddatblygu ymagweddau cyson at les a dysgu disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Ar ôl cyfnod o newidiadau graddol yn arweinyddiaeth yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, mae gan yr ysgol dîm arweinyddiaeth sefydlog. Mae penodi pennaeth parhaol, a fu gynt yn ddirprwy bennaeth yr ysgol, a phenodi dirprwy bennaeth newydd ym mis Medi 2017, yn helpu atgyfnerthu newidiadau buddiol diweddar i arfer a gweithdrefnau yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn darparu arweinyddiaeth ymroddgar a myfyriol. Maent yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei rhannu a'i deall gan bob aelod o'r tîm addysg ac yn sicrhau bod lles a chynnydd disgyblion yn ganolog i waith yr ysgol. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod cyfleoedd addas i rannu gwybodaeth bwysig am les disgyblion ac adolygu cynnydd. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon i gefnogi ethos yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent wedi rhoi nifer o fesurau buddiol ar waith i gryfhau'r ddarpariaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i fodel y cwricwlwm i ddarparu parhad gwell yn y dysgu, a chefnogi trosglwyddiadau disgyblion yn fwy effeithiol yn ystod y diwrnod ysgol. Maent wedi cryfhau prosesau sicrhau ansawdd trwy sefydlu'r grŵp sicrhau ansawdd, teithiau dysgu a chraffu ar waith i lywio eu harfarniad o waith yr ysgol a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn ystyried yn ddigon gofalus yr adnoddau a'r graddfeydd amser sydd eu hangen i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn drylwyr. O ganlyniad, megis dechrau cael eu datblygu o hyd y mae llawer o gamau gweithredu diweddar yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn dechrau datblygu partneriaethau strategol gwerthfawr gydag ysgolion eraill yn y sectorau ysgolion arbennig annibynnol ac ysgolion arbennig a gynhelir yn rhanbarth Gogledd Cymru. Mae hyn yn helpu'r ysgol i rannu syniadau ac archwilio agweddau ar arfer effeithiol a nodwyd mewn ysgolion tebyg eraill, ac ymestyn ystod y profiadau dysgu sydd ar gael i ddisgyblion. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn mynychu lleoliadau a chyrsiau mewn colegau ôl-16 lleol mewn medrau adeiladu neu ffermio.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu addas sy'n bodloni anghenion ei disgyblion yn dda ar y cyfan. Caiff cyfleusterau fel y neuadd chwaraeon, y gampfa, yr ardal chwarae a'r ardd gegin eu cynnal yn dda ac maent yn darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer dysgu a hamdden.

Nid oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig. Mae hyn yn golygu na all arweinwyr gynllunio'r gwasanaeth cyfan yn annibynnol i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd neu gynllunio'n ddigonol ar gyfer gwelliant tymor hir. Mewn rhai meysydd, fel dysgu proffesiynol ar gyfer staff, mae hyn yn rhwystro'r ysgol rhag gweithredu hyfforddiant a nodwyd sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag anghenion cyfathrebu disgyblion neu ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff preswyl sy'n cefnogi disgyblion mewn addysg yn ystod y dydd. Roedd hyn yn fater a nodwyd yn ymweliad monitro diweddaraf Estyn ym mis Tachwedd 2017. O ganlyniad, cynnydd araf yn unig a wnaeth yr ysgol yn unol â'r argymhelliad hwn.

Ceir strwythur diffiniedig ar gyfer llywodraethu'r ysgol. Mae bwrdd y llywodraethwyr yn cynnwys aelodau sydd â phrofiad perthnasol o addysg arbennig ac yn dod ag arbenigedd ychwanegol i'r tîm arweinyddiaeth newydd. Mae hyn yn helpu cryfhau gweithdrefnau sicrhau ansawdd sy'n dod i'r amlwg yr ysgol, er enghraifft trwy gynnwys llywodraethwyr mewn teithiau cerdded dysgu ac arsylwi gwersi. Fodd bynnag, at ei gilydd, megis dechrau datblygu o hyd y mae effaith gwaith llywodraethwyr yn y maes hwn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2018